

Sgamiau



Sgiam yw cynllwyn i geisio dwyn arian, gwybodaeth bersonol neu ddata gan unigolyn neu sefydliad. Mae enwau eraill ar gyfer sgiâm yn cynnwys twyll ac ystryw. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi amcangyfrif bod unigolion yn colli £10 biliwn y flwyddyn yn sgil twyll ar-lein.

Beth yw sgiâm?

Dangosodd amcangyfrifon gan Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr a gynhaliwyd dros y ffôn bod 4.4 miliwn o droseddau twyll wedi'u cyflawni yn y 12 mis diwethaf.

- O'r rhai sydd ag anabledd neu salwch hirdymor, dywedodd 45% eu

bod wedi cael eu targedu.

- O'r rhai sydd ag anabledd neu salwch hirdymor, dywedodd 45% eu bod wedi cael eu targedu.
- Roedd rhywun wedi cysylltu â hanner (50%) o'r rhai oedd â risg cynyddol o ddal coronafeirws neu oedd yn gwarchod eu hunain.
- Roedd rhywun wedi cysylltu â dros hanner (54%) y rhai sydd wedi colli incwm personol yn sgil y feirws.

Yng ngogledd Cymru rydym wedi gweld cynnydd yn y twyllwyr sydd yn targedu pobl gyda chynlluniau sy'n gysylltiedig â chyllid. Fe ddylech fod yn wiliadwrus o sgamiau tebyg i:

- Hysbysebion sy'n cynnig cynlluniau ffug "Cyfoeth Cyflym"
- Galwadau ffôn, negeseuon testun neu e-bost yn esgus bod gan

eich banc, yn gofyn i chi symud eich arian neu'n gofyn i chi ddarparu eich manylion personol.

- E-byst sgiam neu alwadau awtomataidd yn esgus eu bod gan y llywodraeth neu gwmni swyddogol.
- Cynnig i adolygu pensiynau yn annisgwyl.

Sgamiau ariannol

Tra'n gwneud penderfyniadau ariannol, mae yna rai pethau y gall pobl eu gwneud i leihau'r perygl o gael eu twyllo:

Peidiwch â rhoi arian na fanylion banc i rywun nad ydych chi'n eu hadnabod neu ddim ond wedi eu cyfarfod ar-lein. Byddwch yn wiliadwrus o gysylltiad annisgwyl.

Gwnewch rhywfaint o waith ymchwil i'r unigolyn rydych chi'n delio â nhw. Mae'n rhaid i bron bob cwmni gwasanaethau ariannol gael eu hawdurdodi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) – os nad ydynt ar y gofrestr yna mae'n debyg ei fod yn dwyll.

Mae hi bob amser yn bwysig cadw llygad am sgamiau. Fe allant, ac maent yn effeithio ar unrhyw un.

Sylwi ar sgâm:

- Mae'n ymddangos ei fod yn rhy dda i fod yn wir – fel e-bost sy'n dweud eich bod wedi ennill cystadleuaeth ond nid ydych yn cofio cystadlu.
- Mae rhywun nad ydych yn ei adnabod yn cysylltu â chi'n annisgwyl

- Rydych yn cael eich annog i ymateb yn gyflym fel nad oes gennych amser i feddwl na siarad gyda theulu a ffrindiau.
- Gofynnwyd i chi dalu am rywbeth ar frys neu mewn dull anarferol – er enghraifft drwy drosglwyddiad banc neu dalebau anrhegion.
- Gofynnwyd i chi ddarparu gwybodaeth bersonol.

Mae yna gamau syml y gall pobl eu cymryd i helpu i warchod eu hunain rhag twyll:

- Peidiwch â chael eich rhuthro i wneud penderfyniadau cyflym. Mae hi'n berffaith iawn i gymryd eich amser.
- Peidiwch byth â rhoi arian neu fanylion personol, megis cyfrineiriau neu fanylion banc, i unrhyw un nad ydych chi'n eu hadnabod, yn

gallu ymddiried ynddynt neu os mai dim ond ar-lein rydych chi wedi eu cyfarfod. Os bydd rhywun yn rhoi pwysau arnoch chi ar gyfer y rhain, mae'n debyg mai twyll ydyw.

- Cyn chi brynu unrhyw beth, gwiriwch y cwmni neu wefan rydych chi'n ei ddefnyddio. Darllenwch adolygiadau o wefannau gwahanol, chwiliwch am fanylion y cwmni ar Tŷ'r Cwmnïau, a darllenwch eu telerau ac amodau.
- Talwch drwy gerdyn debyd neu gerdyn credyd. Mae hyn yn rhoi amddiffyniad ychwanegol i chi os aiff rhywbeth o'i le.
- Byddwch yn wiliadwrus. Gall twyllwyr fod yn dwyllodrus iawn.

<https://www.bwrddiogelugogleddcymru.cymru/>